# Prosiect Cysylltiad Margam

**Ein bwriad yw ymestyn is-orsaf bresennol Margam, a’i chysylltu ag is-orsaf newydd ar safle Tata Steel drwy gebl tanddaearol.**

Bydd hyn yn cefnogi’r gwaith o drydaneiddio ffwrnais arc trydan newydd Tata Steel a darparu’r capasiti ar gyfer cysylltiadau yn y dyfodol.



nationalgrid

# Ein Cynnig

**Ein bwriad yw ymestyn is-orsaf bresennol Margam a'i chysylltu ag is-orsaf newydd ar safle Tata Steel drwy gebl tanddaearol.**

Bydd y cyfleuster estynedig yn cynnwys is-orsaf 275 kV newydd yn lle'r un bresennol. Bydd yno hefyd neuadd Offer Switsio wedi'i Inswleiddio gan Nwy (GIS) ynghyd ag adeilad ategol ar gyfer gweithrediadau'r safle.

Bydd y cynnig hwn yn golygu bod modd trydaneiddio ffwrnais arc trydan Tata Steel, cryfhau'r rhwydwaith trydan lleol, a chaniatáu ar gyfer cysylltiadau i'r dyfodol. Byddai gwneud hyn yn chwarae rhan allweddol i ddiogelu swyddi yn yr ardal a chefnogi'r gwaith o greu dur gwyrdd.

Fel rhan o ddyluniad y prosiect, rydym wedi ystyried lleihau effaith ein prosiect yn lleol. Mae hyn yn cynnwys lleihau effaith traffig ein gwaith adeiladu. Ar hyd Heol Cefn Gwrgan y byddwn yn cael mynediad i'r safle, a chaiff ffyrdd cludo a chompowndiau adeiladu dros dro eu lleoli yn y parth adeiladu dynodedig.

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned leol


**Rydym wedi ymroi i rannu gwybodaeth am ein prosiect gyda phobl sy'n byw ac yn gweithio'n lleol.**

Rydym yn deall pwysigrwydd y prosiect hwn i gymunedau lleol ac rydym yn cynnal digwyddiad gwybodaeth i'r cyhoedd i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio agosaf at y safle er mwyn iddyn nhw ddeall ein cynigion yn well, siarad â'n tîm a gofyn unrhyw gwestiynau.

**Dyddiad:** 17 Gorffennaf 2025
**Amser:** 2–8pm
**Lleoliad:** Canolfan Gymunedol Margam, 39 Ffordd Bertha, Port Talbot, SA13 2AP

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio agosaf at safle'r prosiect yn ystod holl gamau'r prosiect.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael ar ein gwefan: **nationalgrid.com/electricity-transmission/network-and-infrastructure/infrastructure-projects/margam-substation**



# Y cam nesaf

**Bydd angen i ni gael caniatâd cynllunio ar gyfer ein prosiect gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Cyn i ni gyflwyno ein cais yn ddiweddarach yr haf hwn, byddwn yn cynnal Ymgynghoriad Cyn- Ymgeisio statudol am 28 diwrnod pan fyddwn yn rhannu ein cais drafft terfynol i bawb ei weld a rhoi sylwadau arno.**

Fel rhan o'r Ymgynghoriad Cyn-Ymgeisio statudol hwn, mae'n rhaid ni ymgynghori â'r tri grŵp canlynol:

- Meddianwyr a pherchnogion sy'n agos i safle'r cais
- Ymgyngoreion cymunedol
- ac Ymgyngoreion arbenigol.

Yna, bydd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn cael ei gyflwyno fel rhan o'n cais cynllunio.

## Gwybodaeth am National Grid

Mae National Grid yn gweithio i ddarparu system ynni sy'n lanach, mwy fforddiadwy a diogel i bawb – gan bweru dyfodol cartrefi, cludiant, a diwydiant.

Rydym ni wrth wraidd system ynni'r wlad, yn cysylltu miliynau o bobl a busnesau â'r trydan maen nhw'n ei ddefnyddio bob dydd. Ni sy'n dod ag ynni'n fyw – drwy'r gwres, y golau a'r pŵer a ddarparwn; drwy ein cefnogaeth i gymunedau; a drwy ein gwaith yn helpu Prydain i dyfu a ffynnu.

# Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth neu i ofyn cwestiwn, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Ffonio ein rhif rhadffôn: **0800 024 1437**

Anfon e-bost i: **margam@nationalgrid.com**

Sganio'r cod QR neu fynd i: **nationalgrid.com/electricity-transmission/network-and-infrastructure/infrastructure-projects/margam-substation**

Ailgylchwch

nationalgrid